WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Dyddiad cyhoeddi: 13 Chwefror 2017

Manylion Cyswllt y Pennaeth Dadansoddi Ymchwil

Diolch am eich neges e-bost dyddiedig 10 Chwefror 2017 lle y gwnaethoch ofyn am **'enwau a chyfeiriadau e-bost uniongyrchol eich...Pennaeth Ymchwil a/neu Ddadansoddi'**.

Gallaf gadarnhau nad oes gennym Bennaeth Ymchwil na Phennaeth Dadansoddi yn Swyddfa Archwilio Cymru, ac nid oes gennym adran benodol sy'n ymdrin â'r meysydd hyn ychwaith. Er mwyn egluro, mae gan Swyddfa Archwilio Cymru dair adran: Archwilio Ariannol, Archwilio Perfformiad a Galluogwyr Corfforaethol. Mae staff ym mhob un o'r adrannau hyn yn ymgymryd â gwaith ymchwil a dadansoddi.

Er mwyn dod o hyd i'r aelod o staff mwyaf perthnasol ar gyfer eich cais, efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi edrych ar ein siart sefydliadol, sydd ar dudalen 'Amdanom Ni' ein gwefan y gellir mynd ati drwy ddefnyddio'r ddolen hon.

Gallwch hefyd gael gwybod mwy am ein huwch aelodau o staff ar dudalen 'Amdanom Ni'/'Pwy yw Pwy' ein gwefan.

Gobeithio y bydd y dolenni hyn yn cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen arnoch. Os na fyddant, a fyddech cystal â darparu rhagor o fanylion am y rôl rydych am gael manylion cyswllt ar ei chyfer, gan y bydd angen eglurhad o'r fath arnaf er mwyn ymateb i'ch cais.

Yn gywir,